**Memorandwm Esboniadol ar gyfer:**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig").**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau Ffioedd Optegol").**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023; a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Eluned Morgan AS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

29 Medi 2023

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

*Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023*

1.1 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig") yn cydgrynhoi, yn dirymu ac yn disodli gyda diwygiad y Rheoliadau a ganlyn o ran Cymru:

a. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 ("Rheoliadau 1986");
b. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio a Diwygiad Canlyniadol) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006").

2.1 Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig yn ehangu'r gwasanaethau gofal llygaid craidd a ddarperir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru i gynnwys archwiliadau llygaid yn ogystal â phrofion golwg. Mae'r Rheoliadau yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol i wneud trefniadau ar gyfer darparu archwiliadau llygaid yn eu hardal ac maent yn gwneud darpariaeth ynghylch y trefniadau rhwng Byrddau Iechyd Lleol a'r rhai sy'n ymgymryd â darparu'r gwasanaethau craidd hyn ar eu rhan. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol gynnal rhestr gyfunol sy'n gyfuniad o'r rhestr offthalmig a'u rhestr atodol.

*Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023*

1.2 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau Ffioedd Optegol") yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("Rheoliadau 1997").

1.3 Mae Rheoliadau 1997 yn darparu ar gyfer cynllun i daliadau gael eu gwneud drwy system dalebau o ran y costau yr eir iddynt gan gategorïau penodol o bobl mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol (sbectolau a lensys cyffwrdd). Mae'r Rheoliadau Ffioedd Optegol yn diweddaru gwerth talebau penodol ar gyfer teclynnau optegol a ddarperir o dan Reoliadau 1997. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth gyfyngedig mewn perthynas â chymhwysedd ar gyfer talebau optegol, gan gynnwys gwneud carcharorion ar absenoldeb yn gymwys. Maent hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol i Reoliadau 1997.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

*Y Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig*

3.1 Gwneir y Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru yn adrannau 2, 3, 10, 12(3), 15, 71 i 74, 76(6), 76(9)(a) a (b), 78(6), 104 i 106, 107(5) a (7), 110(6)(a), (9) a (10), 115(9), 116 i 118, 119(3), (4) a (5), 203(9) a (10), 204(3)(c)(i) a 205 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").

3.2 Mae adran 12(3) o Ddeddf 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd. Mae adran 204(3)(c) o Ddeddf 2006 yn darparu y caniateir gwneud y cyfarwyddydau hynny ar ffurf rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol i drefnu ar gyfer darparu archwiliadau llygaid yn eu hardal yn unol â'r Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig.

3.3 Gwneir y Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol. Byddant yn dod i rym ar 20 Hydref 2023.

*Y Rheoliadau Ffioedd Optegol*

3.4 Gwneir y Rheoliadau Ffioedd Optegol yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru yn adrannau 71, 129 a 203(9) a (10) o Ddeddf 2006.

3.5 Gwneir y Rheoliadau Ffioedd Optegol o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol. Byddant yn dod i rym ar 20 Hydref 2023.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r diwygiadau a grynhoir isod yn ceisio gwella mynediad cleifion at wasanaethau iechyd llygaid, gan sicrhau bod cymorth yn cael ei roi gan y gweithiwr proffesiynol iawn, yn y lle iawn, ar draws y llwybr gofal llygaid cyfan, sy'n cynnwys gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol a gwasanaethau gofal llygaid arbenigol mewn ysbytai.

4.2 Mae amcangyfrifon a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru, sef Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol, yn awgrymu y gellid bod wedi osgoi colli golwg yn hanner yr achosion yr adroddwyd amdanynt. Mae'n hanfodol felly ehangu'r ddarpariaeth mewn gofal sylfaenol, lle mae gweithlu medrus eisoes yn bodoli i gefnogi gwasanaethau llygaid mewn ysbytai. Mae optometryddion yn rhan

annatod o'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid, ac mae ganddynt y sgiliau i gynnal 'profion golwg' ac 'archwiliadau iechyd llygaid' mewn gofal sylfaenol.

4.3 Mae'r Rheoliadau yn rhan o ddiwygiadau ehangach y bwriedir iddynt sicrhau bod diagnosis, triniaeth, rheolaeth barhaus, gofal a rennir a chyngor ynglŷn ag atal, iechyd a llesiant yn rhan o ddarpariaeth gwasanaethau mewn gofal sylfaenol.

4.4 Mae'r dull hwn yn golygu bod Optometreg yn cyd-fynd â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth a Fferylliaeth GIG Cymru o ran y cyngor ehangach a roddir mewn gofal sylfaenol ynglŷn ag atal, iechyd a llesiant. Mae gan ymarferwyr y gallu a'r set sgiliau i roi diagnosis, trin, ac ymdopi â mwy o gleifion mewn gofal sylfaenol, gan ddarparu gofal yn agos at gartrefi pobl a gwella mynediad cleifion at wasanaethau gofal llygaid arbenigol mewn ffordd amserol. Y bwriad wrth wraidd y dull hwn yw lleihau’r galw am farn ac ymyrraeth o dan arweiniad ysbytai, gan leihau’r oedi a’r ôl-groniad apwyntiadau ar gyfer gwasanaethau llygaid mewn ysbytai. Hefyd, bwriedir iddo leihau’r galw ar feddygon teulu.

4.5 Yng Nghymru, mae datblygiad proffesiynol ein gweithlu optometreg gofal sylfaenol yn sicrhau bod gweithlu â sgiliau priodol ar gael i ddarparu’r manteision y gobeithir eu gwireddu yn sgil y diwygio angenrheidiol i wasanaethau, gan gynnwys darparu archwiliadau iechyd llygaid.

4.6 Y nod yw lleihau nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau llygaid mewn ysbytai – sef oddeutu traean o leihad – a’i gwneud yn bosibl i fonitro a rheoli cleifion risg isel a risg ganolig o fewn gofal sylfaenol. Bydd gwasanaethau llygaid mewn ysbytai yn parhau i gynnig goruchwyliaeth arbenigol. Mae dull o'r fath sy'n ystyried y llwybr yn ei gyfanrwydd yn addas iawn ar gyfer gofal llygaid lle gellir ailddosbarthu’r galw gyda gweithlu sydd wedi'i uwchsgilio mewn gofal sylfaenol.

4.7 Y bwriad yw y bydd y diwygiadau ehangach y mae'r Rheoliadau yn rhan ohonynt yn cyflymu'r modd y darperir gofal iechyd llygaid i weithwyr iechyd proffesiynol a dinasyddion ledled Cymru. Bwriedir esgor ar y manteision canlynol i ddinasyddion:

- Gwella mynediad amserol i unigolion sydd angen gwasanaethau llygaid arbenigol mewn ysbytai o fewn gofal eilaidd, ynghyd â lleihau’r amseroedd aros.
- Gwella mynediad amserol at brofion golwg, archwiliadau llygaid a thriniaeth a rheolaeth iechyd llygaid mewn gofal sylfaenol.
- Bydd cleifion yn cael mynediad at well gwasanaethau gofal llygaid mewn practisau optometreg gofal sylfaenol yn agos at eu cartrefi.
- Dim ond cleifion sydd angen gwasanaethau llygaid arbenigol a fydd yn cael eu gweld mewn ysbytai.

- Gwella mynediad amserol i gleifion â phatholeg llygaid a allai beri iddynt golli eu golwg yn barhaol, gan y byddai'r galw am wasanaethau llygaid mewn ysbytai wedi lleihau.

4.8 Rhaid sicrhau bod cleifion wrth galon a chraidd yr holl wasanaethau a ddarperir, ni waeth beth fo'r lleoliad. Yn achos gwasanaethau gofal llygaid o bob math, pa un a fyddant yn cael eu cynnig mewn ysbytai neu mewn practisau optometreg, dylid rhoi pwyslais ar ganfod cyflyrau iechyd llygaid ynghynt er mwyn helpu i leihau nifer y bobl a fydd yn colli eu golwg.

*Y Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig*

4.9 Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig yn cydgrynhoi, yn dirymu ac yn disodli gyda diwygiad Reoliadau 1986 a 2006. Nodir y newidiadau allweddol isod. Gwnaed mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol eraill i'r darpariaethau wedi'u cydgrynhoi o Reoliadau 1986 a 2006. Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

Newidiadau allweddol - gwasanaethau

4.10 Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu archwiliadau llygaid yn eu hardal. Yn flaenorol, darparwyd yr archwiliadau llygaid hyn gan ymarferwyr achrededig ar sail 'optio i mewn' o dan gyfarwyddydau Gweinidogion Cymru[1]. Maent bellach yn wasanaethau gorfodol y mae rhaid i bawb sy'n gwneud trefniadau gyda Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu profion golwg (y cyfeirir atynt fel "contractwyr") eu darparu.

4.11 Nid yw darpariaethau sy'n ymwneud â phrofion golwg wedi'u newid ar y cyfan, ond mae categorïau newydd penodol o bobl bellach yn gymwys i gael prawf golwg a gwneir darpariaeth ynghylch y cyngor sydd i'w ddarparu i gleifion.

Newidiadau allweddol - rhestrau Byrddau Iechyd Lleol

4.12 Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol sefydlu a chynnal rhestr gyfunol ar gyfer eu hardal sy'n cynnwys (i) eu rhestr offthalmig (h.y. y rhestr o gontractwyr sy'n ymgymryd â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol craidd o dan y Rheoliadau) a (ii) eu rhestr atodol (h.y. y rhestr o ymarferwyr sydd wedi'u cymeradwyo i gynorthwyo contractwyr i ddarparu'r gwasanaethau hynny).

4.13 Bydd y rhestrau hyn yn disodli rhestrau offthalmig ac atodol presennol Byrddau Iechyd Lleol. Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig yn cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n cael yr effaith y bernir bod unrhyw un sydd wedi'i gynnwys yn y rhestrau presennol yn

[1] Gweler *Cyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016*

union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym wedi'i gynnwys yn y rhestr newydd gyfatebol am gyfnod cychwynnol o 28 o ddiwrnodau. Yn ystod y cyfnod hwnnw o 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r rhai y bernir eu bod wedi'u cynnwys yn rhestr Bwrdd Iechyd Lleol ddarparu gwybodaeth benodol i'r Bwrdd Iechyd Lleol gan gynnwys tystiolaeth eu bod wedi'u hachredu i ddarparu'r gwasanaethau archwiliadau llygaid gorfodol newydd.

4.14 Rhaid i fyfyrwyr optometreg gael eu cynnwys yn rhestr atodol Bwrdd Iechyd Lleol cyn y caniateir iddynt gael eu cyflogi gan gontractwyr. Mae hyn yn berthnasol i'r rhai sydd ar y gofrestr myfyrwyr a gedwir gan y rheoleiddiwr proffesiynol, sef y Cyngor Optegol Cyffredinol, sydd wedi'u cymhwyso i gynnal profion golwg o dan oruchwyliaeth. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth drosiannol fel nad oes angen i fyfyrwyr optometreg gael eu cynnwys mewn rhestr o'r fath tan 31 Mawrth 2024.

4.15 Mae newidiadau eraill yn cynnwys dileu'r gofyniad blaenorol bod rhaid i ymgeisydd nodi ei ryw wrth wneud cais i gael ei gynnwys mewn rhestr Bwrdd Iechyd Lleol a newidiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sydd wedi'i gynnwys yn y naill ran neu'r llall o restr gyfunol Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol o fewn 14 o ddiwrnodau pan fo angen newid yr wybodaeth a gynhwysir amdano yn rhestr y Bwrdd Iechyd Lleol.

<u>Newidiadau allweddol: telerau gwasanaeth contractwyr</u>

4.16 Mae'n ofynnol i gontractwyr wneud y canlynol:

4.16.1 darparu cyngor ar iechyd llygaid a/neu olwg fel sy'n briodol i'r claf wrth ddarparu prawf golwg;

4.16.2 darparu archwiliadau llygaid i gleifion pan fo'r meini prawf penodedig wedi'u bodloni;

4.16.3 sicrhau bod pâr o sbectolau sylfaenol ar gael i gleifion sydd wedi derbyn taleb optegol;

4.16.4 cyflwyno hawliadau am dâl am wasanaethau o fewn tri mis i'r dyddiad y darparwyd y gwasanaethau;

4.17 Mae newidiadau eraill yn cynnwys gofynion ynghylch archwiliadau, adrodd am y gweithlu, gweithio mewn clystyrau a hyfforddiant, yn ogystal ag atgyfeirio cleifion a chytuno ar amseroedd pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu.

*<u>Y Rheoliadau Ffioedd Optegol</u>*

4.18 Mae Rheoliadau 1997 yn darparu ar gyfer cynllun i daliadau gael eu gwneud drwy system dalebau o ran y costau yr eir iddynt gan

gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol (sbectolau a lensys cyffwrdd). Bwriad y cynllun yw rhoi i bobl gymwys (fel plant a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau penodol) daleb y caniateir iddynt ei defnyddio i brynu (neu ei defnyddio tuag at gost) sbectol. Mae gwerth y daleb yn gysylltiedig â'r presgripsiwn sy'n ofynnol gan y claf.

4.19 Mewn asesiad a gynhaliwyd o'r system a roddir ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas â thalebau optegol, tynnwyd sylw at yr annhegwch a ddaw i ran cleifion a chanddynt anghenion presgripsiwn uwch, oherwydd nid yw'r talebau cyfredol a roddir i gleifion ar yr ystodau presgripsiwn uwch yn talu'n llwyr am gostau teclynnau optegol ym mhob achos. O'r herwydd, yn aml gofynnir i'r cleifion sydd yn yr angen mwyaf, yn ariannol ac yn glinigol, gyfrannu'n sylweddol at gost eu sbectol, er eu bod yn gymwys i gael cymorth ariannol. Mae'r Rheoliadau Ffioedd Optegol yn diweddaru gwerthoedd y talebau er mwyn sicrhau y byddant yn adlewyrchu cost safonol y teclyn optegol yn well ar draws pob ystod presgripsiwn.

4.20 Mae'r newidiadau i werthoedd talebau yn rhan o ddiwygiadau ehangach i'r system ad-dalu am wasanaethau offthalmig gofal sylfaenol, gan gynnwys cynyddu ffi prawf golwg y GIG a fydd yn dod i rym o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. Mae'r newidiadau i werthoedd y talebau optegol hefyd yn cael eu hategu gan y gofyniad newydd i gontractwyr sicrhau bod pâr sylfaenol o sbectolau ar gael i gleifion sydd wedi derbyn taleb optegol, o fewn gwerth eu taleb (fel y nodir uchod).

4.21 Mae'r Rheoliadau Ffioedd Optegol yn gwneud darpariaeth drosiannol fel bod gan dalebau a ddyroddir (ond sydd heb eu defnyddio) cyn i'r Rheoliadau ddod i rym y gwerth o dan Reoliadau 1997 fel yr oeddent yn bodoli ar ddyddiad dyroddi'r daleb. Mae'r gwerthoedd talebau newydd yn berthnasol i'r holl dalebau a ddyroddir ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, neu wedi hynny.

4.22 Mae'r Rheoliadau Ffioedd Optegol hefyd yn gwneud diwygiadau penodol ynghylch cymhwysedd ar gyfer talebau optegol, gan gynnwys mewn perthynas â charcharorion ar absenoldeb, yn ogystal â mân ddiwygiadau technegol eraill.

## 5. Ymgynghori

### 5.1 **Ymgynghoriad ffurfiol**

5.2 Roedd ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 24 Ebrill 2023 a 19 Mehefin 2023 yn nodi manylion cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau offthalmig sylfaenol yng Nghymru. Aeth yr ymgynghoriad ati i geisio barn byrddau iechyd lleol, personau sy'n darparu neu y caniateir iddynt wneud cais i ddarparu gwasanaethau offthalmig y GIG, personau sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau offthalmig neu y caniateir iddynt wneud cais i gynorthwyo

i ddarparu'r gwasanaethau hynny, cyrff proffesiynol sydd â buddiant mewn gwasanaethau offthalmig y GIG, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ehangach.

5.3 Mae'r cynigion wedi'u datblygu yn erbyn yr egwyddorion allweddol a amlinellir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020 - 2024, sy'n nodi ein nodau a'n hamcanion cydraddoldeb, ynghyd â'r prif gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r ddogfen ymgynghori wedi'i llywio hefyd gan y Model Gofal Sylfaenol i Gymru, sef y dull gweithredu y cytunwyd arno i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Mae'r model yn ymwneud â mynediad teg at y gofal iawn, ar yr adeg iawn gan y gweithiwr proffesiynol neu'r gwasanaeth iawn yn y cartref, neu'n agos ato.

5.4 Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynigion yn yr ymgynghoriad a dderbyniwyd yn eang. Yn gyfan gwbl, cafodd Llywodraeth Cymru 129 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ac roedd cytundeb cyffredinol â'r cynigion. Mae'r ymatebion yn adlewyrchu safbwyntiau uniongyrchol ac amrywiol optometryddion, cyrff proffesiynol, y sector preifat a gwirfoddol, y sectorau cyhoeddus, iechyd a gofal, disgyblaethau meddygol ehangach, a sefydliadau academaidd.

5.5 Wrth ystyried yr adborth cadarnhaol a gafwyd, ni fu angen gwneud diwygiadau sylweddol i'r Rheoliadau drafft.

5.6 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys sylwadau yn ymwneud â gwerthoedd talebau optegol. Yng ngoleuni'r sylwadau hynny, darparwyd ar gyfer tâl atodol sy'n berthnasol i blant sy'n gymwys i gael taleb optegol A (hyd at a chan gynnwys 18 oed) yn y Rheoliadau. Bydd y tâl atodol hwnnw'n cael ei dalu am bresgripsiynau ar gyfer sfferau yn yr ystod o 4 i 6D o daleb A i alluogi datrysiadau lensys nad ydynt mewn stoc i wella'r ymddangosiad cosmetig. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o'r holl dalebau optegol, taliadau atodol a thalebau trwsio o ran y ffigurau y cytunwyd arnynt.

5.7 Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch y posibilrwydd o'i gwneud yn ofynnol i ymarferwyr gwblhau archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) i gael eu cynnwys yn y rhestr offthalmig neu atodol a'i gwneud yn ofynnol iddynt gofrestru gyda Gwasanaeth Diweddaru GDG. Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd, ni wneir unrhyw newidiadau yn hynny o beth ar hyn o bryd, gan y gall Byrddau Iechyd Lleol eisoes ofyn yn rhesymol am archwiliad GDG cyfredol gan gontractwyr ac ymarferwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth hon yn unol â'r proffesiynau eraill sy'n gontractwyr, yn enwedig mewn perthynas â'r gwasanaeth diweddaru blynyddol sydd ar gael, a allai leihau'r baich gweinyddol ymhellach.

5.8 Bydd rhai o'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn cael effaith drwy gyfarwyddydau. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

a) gwneud trefniadau ar gyfer y gwasanaethau 'lefel uwch' a fydd ar gael mewn gofal sylfaenol, ond na fydd yn orfodol i bawb sy'n darparu gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol y GIG.
b) taliadau i'w gwneud i gontractwyr y GIG sy'n cydymffurfio â dyletswyddau gorfodol newydd penodol sy'n gysylltiedig ag archwiliadau, adrodd am y gweithlu, gwella ansawdd a gweithio mewn clystyrau;
c) gofyniad ar Fyrddau Iechyd Lleol i gynnal asesiad o anghenion gofal iechyd llygaid y boblogaeth yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol bob tair blynedd; a
d) gofynion ar Fyrddau Iechyd Lleol i sefydlu a chynnal rhestrau gweinyddol o (i) yr ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol y GIG a (ii) yr optegwyr cyflenwi sy'n cael eu cyflogi i gynorthwyo i ddarparu archwiliadau llygaid y GIG.

5.9 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

- [Cynigion i ddiwygio'r gwasanaethau offthalmig a ddarperir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.]

5.10 **Ymgynghoriad anffurfiol**

5.11 Yn ogystal, a chyn yr ymgynghoriad ffurfiol, bu ymgysylltu helaeth â'r sector optometreg mewn cysylltiad â'r cynigion. Dechreuodd Llywodraeth Cymru gynnal cyfres o gyfarfodydd a gweithdai yn ystod yr hydref 2019, er mwyn ystyried dyfodol gwasanaethau gofal llygaid o safbwynt y claf ar draws llwybrau gofal llygaid sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru. Roedd rhanddeiliaid yn cynnwys cynghorau iechyd cymuned, byrddau iechyd lleol, cyrff cynrychioliadol optometreg ac optegwyr cyflenwi ynghyd â chynrychiolwyr offthalmoleg, orthoptwyr a nyrsio offthalmig.

5.12 Ar ôl hynny, parhaodd Llywodraeth Cymru i ddwyn ynghyd y rhanddeiliaid allweddol hyn sy’n darparu gofal llygaid ledled Cymru i weithio ar y cyd fel y gellid cytuno ar ddull cenedlaethol – rhywbeth a arweiniodd at gyhoeddi’r ddogfen Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. Roedd y ddogfen hon yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau gofal llygaid dros y degawd nesaf.

## 6. Asesiadau o’r Effaith

6.1 Yn ogystal ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol, roedd Asesiad Effaith Integredig, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar

Hawliau Plant yn cyd-fynd â'r ymarfer ymgynghori. Ceir dolen i bob asesiad isod ynghyd â chrynodeb byr.

6.2 [Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: asesiad effaith integredig]

6.3 O safbwynt y cyhoedd, dyma'r effeithiau a nodwyd ac a ddaw yn sgil y cynigion:

- Gwella mynediad amserol i unigolion sydd angen gwasanaethau llygaid arbenigol mewn ysbytai o fewn gofal eilaidd, ynghyd â lleihau'r amseroedd aros.
- Gwella mynediad amserol at 'brofion golwg', archwiliadau iechyd llygaid cyfannol a thriniaeth a rheolaeth iechyd llygaid mewn gofal sylfaenol.
- Bydd cleifion yn cael mynediad at well gwasanaethau gofal llygaid mewn practisau optometreg gofal sylfaenol yn agos at eu cartrefi.
- Dim ond cleifion sydd angen gwasanaethau llygaid arbenigol a fydd yn cael eu gweld mewn ysbytai.
- Gwella mynediad amserol i gleifion â phatholeg llygaid a allai beri iddynt golli eu golwg yn barhaol, gan y byddai'r galw am wasanaethau llygaid mewn ysbytai wedi lleihau.
- Mwy o gysondeb â thelerau gwasanaeth cyfredol a newydd proffesiynau eraill sy'n gontractwyr ar gyfer atal a chymorth llesiant i unigolion mewn gofal sylfaenol, h.y. atgyfeirio at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill ar gyfer cymorth iechyd a llesiant parhaus.
- Gweithlu gofal sylfaenol sydd wedi'i uwchsgilio yn gweithio hyd eithaf ei drwydded ac yn darparu gofal a rennir yn y sector gofal sylfaenol ac eilaidd cyfan a phob llwybr gofal llygaid i gleifion.
- Bydd llai o ddibyniaeth ar werthu sbectolau a lensys cyffwrdd yn gwella'r profiad a'r canlyniadau i gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol.
- Bydd newidiadau deddfwriaethol yn sicrhau bod teclynnau optegol ar gael ac yn cael eu darparu am ddim i glaf cymwys drwy'r system dalebau optegol.

6.4 O safbwynt Optometrydd, dyma'r effeithiau a nodwyd ac a ddaw yn sgil y cynigion:

- Mae'n golygu y gellir defnyddio galluogrwydd proffesiynol llawn wrth ddarparu gofal llygaid ar lefel gofal sylfaenol.
- Mae optometryddion yn rhan annatod o'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid, ac mae ganddynt y sgiliau i gynnal 'profion golwg' ac 'archwiliadau iechyd llygaid' mewn gofal sylfaenol.
- Mae gan ymarferwyr y gallu a'r set sgiliau i roi diagnosis, trin, ac ymdopi â mwy o gleifion mewn gofal sylfaenol, gan ddarparu gofal yn agos at gartrefi pobl a gwella mynediad cleifion at wasanaethau gofal llygaid arbenigol mewn ffordd amserol.

  - Mae'r ffocws ar gyngor iechyd a llesiant a hunanofal cleifion yn golygu bod Optometreg yn cyd-fynd â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth a Fferylliaeth GIG Cymru, gan ddarparu cysondeb ar draws proffesiynau gofal sylfaenol.
  - Mae hyn oll yn cael ei ategu drwy raglen ansawdd uchel o welliannau i sgiliau ac addysg sy'n cyd-fynd â datblygiad proffesiynol parhaus, ymarfer myfyriol, a mentora.
  - Mae'r pecyn ariannol newydd sy'n sail i'r diwygio yn lleddfu'r croes-gymhorthdal manwerthu sydd wedi bod ar waith ers canol y 1980au ac yn ei ddisodli gyda chynnydd sylweddol mewn tâl ar gyfer y proffesiwn optometreg i ddarparu gwasanaethau clinigol ac i ffynnu mewn amgylchedd clinigol gyda thâl priodol. Yn fyr, bydd optometryddion yn cael eu talu mewn ffordd sy'n fwy priodol am eu gwaith clinigol, gan ddisodli'r ddibyniaeth ar werthu offer manwerthu i sybsideiddio cost gwasanaethau clinigol.
  - Bydd hyn yn gofyn am newid i'r model busnes ar gyfer practisau optometreg a bydd hynny'n ei dro yn gofyn am gyfnod o ailaddasu.

- **Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

- Mesurwyd effaith y cynigion yn erbyn yr egwyddorion allweddol a amlinellir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020 - 2024, sy'n nodi ein nodau a'n hamcanion cydraddoldeb, ynghyd â'r prif gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hynny.

- Mae'r asesiad yn disgrifio ac yn egluro effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac mae dadansoddiad o hynny yn dangos yr effeithiau cadarnhaol a gyflawnir drwy gyflymu mynediad at ofal clinigol mewn lleoliad gofal sylfaenol.

- **Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: asesiad o'r effaith ar hawliau plant**

- Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn canolbwyntio yn fwy penodol ar unrhyw effeithiau ar blant a phobl ifanc, boed yn rhai a fwriadwyd ai peidio, ac a dorrwyd unrhyw hawliau. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi ar gyfer plant a phobl ifanc ac mae'r ddogfen asesu yn nodi'r modd y bwriedir yn fwriadol i'r ddarpariaeth newydd a amlygir yn y papur sicrhau cymorth cyfartal i'r rhai o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd dan ofal Awdurdod Lleol.

- Mae swyddogion wedi ystyried sut mae'r polisi arfaethedig hwn yn effeithio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yr Erthyglau a allai fod yn berthnasol yw Erthyglau 1, 2, 3, 4, 20, 25 a 27 a daethpwyd i'r casgliad nad oes unrhyw effaith negyddol yn cael ei rhag-weld ar Hawliau'r Plentyn gan y bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi cydraddoldeb i bawb o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd mewn gofal gan y bydd ganddynt hawl i'r holl hawliau sy'n ymwneud â gofal llygaid. Mae gweddill yr Erthyglau wedi

cael eu hasesu fel rhai nad ydynt yn berthnasol.

- **Datganiad Asesiad o’r Effaith ar Gyfiawnder**

- Mae'r effaith bosibl ar y system gyfiawnder wedi cael ei hystyried a'i hasesu; y casgliad oedd bod dim effaith neu ychydig iawn o effaith ar y system gyfiawnder yn deillio o'r Rheoliadau hyn.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

1. Roedd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau, y manteision a'r risgiau tebygol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau polisi arfaethedig yn cyd-fynd â'r ymarfer ymgynghori ac mae dolen i'r asesiad ar gael yma gyda'r naratif dyblyg yn dilyn isod:

   - https://www.llyw.cymru/gynigion-i-ddiwygio-gwasanaethau-offthalmig-ddarperir-trwy-ofal-sylfaenol-yng-nghymru-asesiad

**1.1 Cyflwyniad a Chanllawiau**

1.1 Mae Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn rhoi gwybodaeth i Weinidogion Cymru, y Swyddog Cyfrifyddu, Senedd Cymru a rhanddeiliaid ynglŷn ag effaith debygol deddfwriaeth arfaethedig, a gellir eu hystyried fel:

- proses ar gyfer helpu Gweinidogion Cymru i ystyried effaith rheoliadau arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau a sefydliadau;
- offeryn ar gyfer galluogi Gweinidogion Cymru i bwyso a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn rhoi polisi ar waith;
- ffordd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ynglŷn ag effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath, fel y gellir craffu ar y dystiolaeth honno.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau offthalmig yng Nghymru ac mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn mynd ati i asesu'r costau, y manteision a'r risgiau tebygol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig. Mae'r rhai a allai fod â buddiant yn yr asesiad hwn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau; byrddau iechyd; unigolion sy'n darparu gwasanaethau offthalmig i'r GIG, neu a allai ddymuno gwneud cais i ddarparu gwasanaethau o'r fath; unigolion sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau offthalmig, neu a allai ddymuno gwneud cais i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o'r fath; a chyrff cynrychiadol.

1.3 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyd-fynd ag ymgynghoriad wyth wythnos sy'n pennu manylion cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r gwasanaethau offthalmig a ddarperir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

1.4 Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, lle ystyrir prif effeithiau'r modd y cyflwynir y polisi.

**2. Opsiynau**

2.1 Mae'r ddogfen *Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar Gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol* yn pennu disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran darparu gwasanaethau gofal llygaid dros y degawd nesaf. Y canolbwynt yw gwella mynediad at wasanaethau iechyd llygaid, gan alluogi cleifion i gael mynediad at wasanaethau a ddarperir gan y gweithiwr proffesiynol iawn, yn y lle iawn ar draws yr holl lwybr gofal

llygaid mewn optometreg gofal sylfaenol a chymunedol a gofal llygaid arbenigol mewn ysbytai. Er mwyn darparu'r rhaglen hon, bydd angen newid y ddeddfwriaeth i gyflymu mynediad at wasanaethau gofal llygaid mewn gofal sylfaenol ac eilaidd.

2.2 Mae'r opsiynau fel a ganlyn:

2.3 **Opsiwn 1 – Busnes fel arfer a pharhau i gynnal y sefyllfa sydd ohoni trwy gadw'r is-ddeddfwriaeth fel y mae, heb ei newid o gwbl:**

2.4 Er mwyn cyflawni nifer o'r ymrwymiadau diwygio allweddol a nodir yn y *Rhaglen Lywodraethu* a'r ddogfen Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol (y cytunir arni'n genedlaethol), bydd angen newid y fframwaith cyfreithiol gan fod cwmpas y gwasanaethau a'r telerau gwasanaeth sy'n berthnasol i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau offthalmig wedi'u pennu mewn deddfwriaeth.

2.5 Yn benodol, bydd angen cydgrynhoi dwy set o reoliadau a chreu un prif set o reoliadau a elwir dros dro yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023. Bydd y set newydd o reoliadau yn cynnwys darpariaethau a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymestyn y mathau o wasanaethau gofal llygaid a ddarperir mewn gofal sylfaenol.

2.6 Trwy gadw at y drefn sydd ohoni a chynnal y fframwaith deddfwriaethol fel y mae ar hyn o bryd, ni fydd modd diwallu'r galw am wasanaethau offthalmig yng Nghymru – galw y disgwylir iddo gynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf yn sgil carfan cleifion a fydd yn fwyfwy oedrannus a chynnydd yn y boblogaeth. Mae'r ffynhonnell ddata hon yn deillio o Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, Coleg yr Optometryddion a'r Trydydd Sector. Ysgogiad allweddol dros newid yw'r angen i leihau'r pwysau ar adrannau llygaid mewn ysbytai. Yr ateb mwyaf ymarferol a chynaliadwy yw symud rhai gwasanaethau gofal llygaid o ysbytai i optometreg gofal sylfaenol, lle ceir gweithlu medrus â'r gallu i ddiwallu'r cynnydd mawr disgwyliedig yn y galw.

2.7 Yr unig ffordd y gellir cyflawni hyn yw trwy ddiwygio a disodli'r ddeddfwriaeth – bydd hyn yn arwain at gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir yn nes adref mewn gofal sylfaenol, gan weithlu hyfforddedig a chymwys.

2.8 **Opsiwn 2 – Peidio â newid y ddeddfwriaeth a recriwtio rhagor o feddygon llygaid arbenigol (offthalmolegwyr) i weithio mewn Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbytai:**

2.9 Unwaith eto, ni fydd yr opsiwn hwn yn bodloni'r rhwymedigaethau a nodir yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol o ran cyflwyno llwybrau gofal llygaid newydd i leihau'r nifer o atgyfeiriadau at Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai – sef rhywbeth na ellir ei wneud ond trwy addasu'r ddeddfwriaeth. Mae gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol yng Nghymru yn gymwys iawn i wynebu'r her mewn perthynas â gofal iechyd llygaid o ganlyniad i'r ymdrechion a wnaed dros y blynyddoedd

diwethaf i uwchsgilio'r gweithlu mewn lleoliadau gofal sylfaenol. Mae'r llwybr hwn yn ei gyfanrwydd yn addas iawn ar gyfer gofal llygaid yng Nghymru lle gellir ailddosbarthu'r galw gyda gweithlu sydd wedi'i uwchsgilio.

2.10 Ymhellach, yn ymarferol, ni all Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbytai oddi mewn i ofal eilaidd barhau i ddarparu triniaeth iechyd llygaid uwch a rheolaeth barhaus ar eu pen eu hunain mwyach, oherwydd yn syml nid oes gweithlu ar gael i wneud hynny, yn awr nac yn y dyfodol, fel y nodir yn yr adroddiad *External Review of Eye Care Services in Wales (rcophth.ac.uk)*, Medi 2021. Mae'r gallu i ddarparu gwasanaethau mewn ysbytai yn is o lawer na'r galw am wasanaethau gofal llygaid arbenigol, a chafodd y sefyllfa hon ei dwysáu gan y pandemig Covid 19 a chan brinder personél cymwysedig.

2.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae gwella'r ddarpariaeth i bobl ag iechyd llygaid gwael yn flaenoriaeth. Ni fyddai cadw at y drefn ddeddfwriaethol sydd ohoni yn gwella mynediad cleifion at wasanaethau iechyd llygaid, oherwydd ni fyddai modd creu'r cydwasanaethau gofal a nodir yn y ddogfen Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol.

2.12 Am y rhesymau hyn, diystyriwyd yr opsiwn hwn.

2.13 **Opsiwn 3 – Diwygio'r fframwaith cyfredol oddi mewn i bwerau presennol trwy ddiweddaru'r is-ddeddfwriaeth bresennol:**

2.14 Gyda'r opsiwn hwn, bydd cydwasanaethau gofal yn cael eu creu – rhywbeth a fyddai'n ymestyn gwasanaethau offthalmig er mwyn cwmpasu iechyd llygaid ehangach, er mwyn gallu darparu gwasanaethau o'r fath mewn gofal sylfaenol. Byddai'r Rheoliadau a'r cyfarwyddiadau newydd ar gyfer gwasanaethau offthalmig yn diwygio'r modd y byddai gwasanaethau gofal llygaid yn cael eu darparu yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ddarparu gofal cyfannol ar gyfer iechyd llygaid.

2.15 Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ymestyn y gwasanaethau mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol eu trefnu wrth wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau offthalmig, ynghyd â chwmpas yr hyn sy'n cyfateb i wasanaethau offthalmig cyffredinol, a bydd yn cyflymu'r modd y darperir gofal iechyd i weithwyr iechyd proffesiynol a dinasyddion ledled Cymru. Bydd y cynnydd mewn gwasanaethau clinigol a ddarperir gan optometryddion, trwy weithio gydag adrannau llygaid mewn ysbytai, yn rhoi sicrwydd i GIG Cymru y bydd y ddarpariaeth yn deg, yn gyson ac yn amserol i bob dinesydd trwy Gymru.

2.16 Yn achos gwasanaethau gofal llygaid o bob math, mewn ysbytai a phractisau optometreg gofal sylfaenol fel ei gilydd, rhaid rhoi'r pwyslais ar ganfod problemau iechyd llygaid ynghynt er mwyn helpu i leihau achosion o golli golwg. Bydd y newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn cynyddu mynediad amserol at 'brofion golwg', archwiliadau iechyd llygaid cyfannol a thriniaeth a rheolaeth iechyd llygaid mewn gofal sylfaenol.

2.17 Mae'r cynnydd mewn colli golwg yn cael effaith sylweddol ar systemau ehangach yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol oherwydd nifer o ffactorau cysylltiedig. Mae'r effaith ar gleifion yn sgil colli annibyniaeth, baglu, syrthio a phroblemau iechyd meddwl (yn cynnwys iselder) yn bellgyrhaeddol o safbwynt ansawdd eu bywydau a hefyd o safbwynt ariannol, yn enwedig i bobl mewn oedran gweithio sydd wedi colli eu golwg.

**3. Costau i Lywodraeth Cymru:**

3.1 Bydd gwella'r modd y darperir gwasanaethau yn esgor ar beth cynnydd mewn costau ac mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar gyllid o £15m yn 2022/23, £25m yn 2023/24 a £30m yn 2024/25. Bydd yr arian hwn yn ychwanegol at y gyllideb bresennol (sef £43m y flwyddyn) ar gyfer buddsoddi yng Ngwasanaethau Offthalmig GIG Cymru, a'u trawsnewid.

**4. Costau i'r Sector Cyhoeddus:**

4.1 Ni fydd gweithredu a gorfodi'r rheoliadau hyn yn arwain at gostau ychwanegol i Awdurdodau Lleol. Ni fyddant yn cael unrhyw effaith (neu fawr ddim effaith) ar y system gyfiawnder ac ni fyddant yn arwain at gostau ychwanegol i Heddluoedd yng Nghymru.

**5. Y Gost i Unigolion**

5.1 O dan adran 129 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu taliadau er mwyn helpu gyda chostau profion golwg a theclynnau optegol (sbectols neu lensys cyffwrdd) ar gyfer unigolion cymwys sy'n perthyn i gategorïau arbennig.

5.2 Mae cymorth ar gael i gleifion cymwys tuag at gostau teclynnau optegol, a hynny trwy gyfrwng talebau optegol y gall y cleifion eu cyflwyno i unrhyw gyflenwr o'u dewis. Gellir defnyddio'r daleb i dalu am sbectol neu lensys cyffwrdd (neu i gyfrannu at y gost), gan ddibynnu ar y swm a godir gan y cyflenwr am y teclyn optegol perthnasol a hefyd ar werth y daleb. Yna, bydd modd i'r ymarferwyr offthalmig / cyflenwyr teclynnau optegol adennill gwerth y daleb optegol gan GIG Cymru.

5.3 Y pwrpas wrth wraidd cyflenwi teclyn optegol (trwy ddefnyddio taleb optegol) yw esgor ar fantais i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas; nid yw'n ffordd o ddarparu incwm ychwanegol i bractisau optometreg.

5.4 Bydd y Rheoliadau Drafft arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023 yn cyflwyno mân newidiadau i'r meini prawf cymhwystra er mwyn sicrhau bod carcharorion sydd ar absenoldeb awdurdodedig yn gymwys i gael talebau mewn rhai amgylchiadau, ac er mwyn sicrhau bod unigolion o dan 18 oed sydd yng ngofal awdurdodau lleol yn gymwys i gael talebau optegol o bob math. Hefyd, bydd gwerth talebau optegol y GIG yn newid er mwyn

cynorthwyo gyda chostau teclynnau.

5.5 Mewn asesiad a gynhaliwyd o’r system a roddir ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas â thalebau optegol, tynnwyd sylw at yr annhegwch a ddaw i ran cleifion a chanddynt anghenion presgripsiwn uwch, oherwydd nid yw’r talebau cyfredol a roddir i gleifion ar yr ystodau presgripsiwn uwch yn talu’n llwyr am gostau teclynnau optegol ym mhob achos. O’r herwydd, yn aml gofynnir i’r cleifion sydd yn yr angen mwyaf, yn ariannol ac yn glinigol, gyfrannu’n sylweddol at gost eu sbectol, er eu bod yn gymwys i gael cymorth ariannol.

5.6 Trwy ddiwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 (“Rheoliadau 1997”), bydd modd i Lywodraeth Cymru gynnig strwythur talu diwygiedig, gan ddarparu talebau optegol newydd y bydd eu gwerth yn cynrychioli’n well gostau safonol y teclynnau optegol ar draws yr holl ystodau presgripsiwn.

5.7 Un bwriad allweddol sy’n sail i’r datblygiad hwn yn y ddeddfwriaeth yw sicrhau y bydd cleifion cymwys yn parhau i gael mynediad teg at bob ystod presgripsiwn (cryfder lensys).

5.8 Er mwyn diogelu’r ddarpariaeth ar gyfer cleifion cymwys, cynigir y dylid cynnwys dyletswydd yn Rheoliadau Drafft y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 lle bydd y gyfraith yn mynnu bod ymarferwyr sy’n darparu profion golwg y GIG, ac sy’n gwerthu sbectols, yn sicrhau bod pâr sylfaenol o sbectols ar gael i bobl sy’n gymwys i gael taleb tuag at gostau sbectols.

5.9 Rhaid i’r pâr sylfaenol hwn o sbectols fodloni manyleb presgripsiwn yr unigolyn a rhaid i werth y sbectol fod o fewn gwerth y daleb berthnasol y mae gan yr unigolyn hawl iddi. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i unigolion cymwys gael teclyn sylfaenol heb orfod wynebu unrhyw gost ychwanegol, gan sicrhau mynediad teg ar draws pob ystod presgripsiwn. Bydd hefyd yn sicrhau bod teclynnau sylfaenol yn parhau i fod ar gael i’r bobl fwyaf agored i niwed.

5.10 Ni ddisgwylir i’r Rheoliadau newid costau i unigolion nad ydynt yn gymwys i gael taleb optegol. Ar hyn o bryd, rhaid i’r unigolion hyn dalu am brawf golwg a sbectols (os yn berthnasol), a bydd y drefn hon yn parhau ar ôl i’r gwasanaeth newydd gael ei gyflwyno.

**6. Y Gost i Optegwyr / Practisau Optometreg:**

6.1 Fel y nodir uchod, bydd y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 1997 yn cynnwys newid gwerth talebau optegol y GIG, a bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y bydd ymarferwyr offthalmig / cyflenwyr teclynnau optegol yn cael tâl am eu gwasanaethau, o gofio eu bod yn adennill gwerth y talebau gan GIG Cymru.

6.2 Mae’r gwaith o newid y modd y telir optometryddion am ddarparu gwasanaethau wedi cael ei gynllunio’n drylwyr, a bydd rhagnodi talebau

optegol y diweddarwyd eu gwerth yn helpu i ategu'r gwaith o symud tuag at fodel mwy clinigol o ddarparu gwasanaethau lle caiff optometryddion dâl mwy priodol am eu gwaith clinigol, ond gan sicrhau ar yr un pryd bod cleifion cymwys ar draws pob ystod presgripsiwn yn parhau i gael mynediad at y gwasanaeth, fel y esbonnir yn yr adran flaenorol.

6.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio gofal llygaid mewn modd clinigol, gan ganolbwyntio ar y cleifion. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gynnwys gwasanaethau clinigol yn llwyr mewn optometreg gofal sylfaenol a chymunedol, ar sail egwyddorion allweddol gofal iechyd darbodus.

6.4 Bydd gwerth newydd y talebau optegol, ynghyd â chynnydd yn y ffi glinigol ar gyfer darparu profion golwg y GIG, yn disodli'r ddibyniaeth ar werthu teclynnau i ariannu costau gwasanaethau clinigol, a bydd yn cynyddu'r gallu ar gyfer gwaith clinigol.

6.5 Mae gwerthoedd diwygiedig y talebau wedi'u pennu ar swm a fydd yn talu'n llwyr am gost teclynnau ar bresgripsiwn o bob cryfder. *O'r herwydd, ni fydd y trefniadau ariannu arfaethedig yn cael effaith negyddol ar bractisau optometreg; yn wir, bydd practisau o'r fath yn gweld cynnydd cyffredinol yn eu tâl o ganlyniad i werthoedd newydd y talebau ar y cyd â chael tâl mwy priodol am eu gwaith clinigol, yn cynnwys y "profion golwg" uwch.*

6.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi coladu a dadansoddi'r holl drefniadau ariannu cyfredol, yn cynnwys gwaith clinigol a thalebau optegol, er mwyn sicrhau bod yr holl newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau optometreg yn addas i'r diben. Pennwyd gwerthoedd y talebau optegol ar sail 'y gost a'r elw', ac mae dadansoddiad o'r costau masnach gogyfer cyflenwi'r teclyn optegol ynghyd â'r ffi ddosbarthu ychwanegol wedi sicrhau bod cyfraddau talu priodol wedi'u pennu ar gyfer practisau optometreg, ar draws talebau o bob gwerth ac ar draws yr holl ystodau presgripsiwn.

6.7 Mae'r trefniant ariannol cyfredol mewn perthynas ag optometreg, sy'n seiliedig ar gontract y DU o ganol y 1980au, yn esgor ar dâl ariannol isel am ryngweithiadau clinigol (profion golwg), ond mae'r tâl ariannol am elfen fanwerthu'r daleb optegol yn uwch (hynny yw, darparu teclynnau optegol ar ôl cynnal profion golwg). Mae'r elfen fanwerthu hon yn ariannu'r rhyngweithio clinigol.

6.8 Mae'r pecyn ariannol newydd yn lleihau'r cymhorthdal manwerthu sydd wedi bod ar waith ers canol y 1980au, gan ei ddisodli â chynnydd sylweddol yn y tâl a roddir i'r proffesiwn optometreg am ddarparu gwasanaethau clinigol a ffynnu mewn amgylchedd clinigol gyda thâl priodol. Yn yr un modd, mae'r model clinigol newydd yn ei gwneud yn bosibl i gleifion gael triniaeth amserol pan fônt ei hangen ac mae'n helpu i gynorthwyo practisau optometreg i gynnal eu model busnes yn y dyfodol.

6.9 Cytunwyd ar y newidiadau hyn ar ôl cynnal trafodaethau gyda'r proffesiwn. Bydd ffioedd clinigol a gwerthoedd talebau'n parhau i fod yn destun trafodaethau teirochrog blynyddol rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac

Optometreg Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod practisau optometreg yn cael tâl priodol a theg am y gwaith a wneir.

6.10 Yn Atodiad A, ceir cymhariaeth fanwl o'r costau a dangosir sut mae'r model o fudd i gleifion, i weithwyr iechyd proffesiynol, i bractisau optometreg ac i GIG Cymru.

**7. Y Manteision:**

7.1 Bydd y newidiadau deddfwriaethol yn ategu dull system gyfan ar gyfer GIG Cymru, sef darparu gofal iechyd llygaid mewn gofal sylfaenol pan fo hynny'n briodol, yn hytrach na darparu profion golwg yn unig.

7.2 Bydd atal a llesiant yn cael eu hymwreiddio ymhellach trwy'r holl wasanaethau optometreg, gan hwyluso canlyniadau gwell i gleifion a lleihau'r galw am wasanaethau Practisau Cyffredinol a Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbytai, yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Trwy roi deddfwriaeth ar waith a fydd yn annog pobl i gymryd camau ataliol yn ystod y cyswllt cyntaf gydag optometrydd er mwyn iddynt allu osgoi colli eu golwg yn barhaol – sef rhywbeth a fyddai'n effeithio ar ansawdd eu bywyd – bydd modd esgor ar fanteision amlwg i ddinasyddion unigol ac i economïau lleol. Mae hyn yn cydweddu Optometreg â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth a Fferylliaeth GIG Cymru o ran y cyngor ehangach a roddir mewn gofal sylfaenol ynglŷn ag atal, iechyd a llesiant.

7.3 Rhaid i bob gwasanaeth gofal iechyd roi pwyslais ar ganfod problemau iechyd llygaid ynghynt er mwyn helpu i rwystro achosion ataliadwy o golli golwg. Mae awgrymiadau a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru, sef Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol, yn awgrymu y gellid bod wedi osgoi colli golwg yn llwyr yn hanner yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt, a phwysleisir pa mor bwysig yw atal ac ymyrryd yn fuan. O'r herwydd, mae hi'n hollbwysig inni ymestyn y ddarpariaeth mewn gofal sylfaenol, lle ceir gweithlu medrus eisoes. Mae gan optometryddion ran hollbwysig yn y dasg o drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid, ac maent yn meddu ar y sgiliau i gynnal 'profion golwg' ac 'archwiliadau iechyd llygaid' mewn gofal sylfaenol.

7.4 Mae colli golwg yn effeithio ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol, ac ar yr economi yn fwy cyffredinol. Yn yr *adroddiad Time to focus*, a lansiwyd gan yr elusen gofal llygaid Fight for Sight, dangosir yr effaith bersonol a'r costau ehangach a all ddeillio o golli golwg, a datgelir bod colli golwg yn costio £25.2 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn, fel y crynhoir isod:

- Mae mwy na dwy filiwn o bobl wedi colli eu golwg yn y DU, ac roedd modd osgoi mwy na hanner yr achosion hyn. Bydd y ffigur hwn yn neidio i 3.5 miliwn erbyn 2050.
- Mae colli golwg yn costio £25.2 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, ac amcangyfrifir y bydd y gost yn codi i £29.9 biliwn y flwyddyn erbyn 2030 ac i £33.5 biliwn y flwyddyn erbyn 2050.
- Mae 84% o'r costau economaidd sydd ynghlwm wrth golli golwg yn

gorwedd y tu allan i'r system iechyd a gofal cymdeithasol, gan adlewyrchu costau 'gofal anffurfiol' a roddir gan deuluoedd a chyfeillion a chostau colli cynhyrchiant o ganlyniad i rwystrau yn y gweithle a'r effaith ar ansawdd bywyd.

- Mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod y gofal anffurfiol hwn yn costio £8.5 biliwn y flwyddyn i economi'r DU – sef traean o gyfanswm y costau.
- Yn achos 37% o bobl oedran gweithio sydd â nam difrifol ar eu golwg, nid ydynt mewn gwaith oherwydd eu cyflyrau llygaid. Mae'r rhwystrau hyn o ran cynhyrchiant yn costio hyd at £7.4 biliwn i economi'r DU – unwaith eto, bron i draean o gyfanswm y costau.
- Mae'r effaith a gaiff colli golwg ar ansawdd bywyd pobl yn cyfateb i hyd at £4.6 biliwn – sef bron i un rhan o bump o gyfanswm y costau.
- O gymharu â phoblogaeth y DU i gyd, dywedodd pobl sy'n byw gyda chyflyrau llygaid yn eu bod yn cael llawer mwy o broblemau o ran cyflawni ansawdd bywyd da, a dywedodd hanner yr ymatebwyr na allent fynd i'r afael â gweithgareddau arferol.
- Dywedodd 41% o'r ymatebwyr eu bod yn dioddef gorbryder ac iselder, a dywedodd 30% eu bod yn teimlo felly gan fod eu cyflwr llygaid yn cyfyngu ar eu hannibyniaeth a'u rhyddid i wneud dewisiadau.
- Roedd 70% yn teimlo bod eu cyflwr llygaid yn cyfyngu ar ryw agwedd ar eu bywyd; roedd 24% o'r farn fod y ffaith eu bod wedi colli eu golwg yn cael effaith negyddol ar eu cydberthnasau personol; a dywedodd 21% fod eu cyflwr yn cyfyngu ar eu gallu i ddatblygu cydberthnasau personol.

7.5 Gan dybio bod modd hollti'r costau sy'n gysylltiedig â cholli golwg yn y DU yn unol â chyfran y boblogaeth, awgryma hyn fod y gost yng Nghymru oddeutu £1.17 biliwn y flwyddyn (ar sail ffigurau'r boblogaeth yng nghanol 2021). O gofio bod cyfran uwch o boblogaeth Cymru yn perthyn i grwpiau oedran hŷn o gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd, mae'n bosibl bod yr amcangyfrif hwn o'r gost yn rhy isel yng Nghymru. Ar sail hyn, amcangyfrifir y byddai'n rhaid i'r costau sydd ynghlwm wrth golli golwg yng Nghymru syrthio oddeutu 2% y flwyddyn er mwyn i fanteision y gwasanaeth newydd fod yn gyfartal â'r amcangyfrif gorau o'r costau ychwanegol gogyfer darparu'r gwasanaeth.

7.6 Mae'r dystiolaeth yn ategu'r angen i ddiweddaru'r ddeddfwriaeth er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gan ymarferwyr mewn gofal sylfaenol. Trwy roi diagnosis, rheoli a thrin rhagor o gleifion mewn gofal sylfaenol, a thrwy 9 ddefnyddio optometryddion â chymwysterau uwch, bydd cleifion yn gallu cael mynediad at ofal yn nes at eu cartref.

7.7 Bydd y dull hwn yn arwain at leihad mawr yn y galw am farn ac ymyrraeth offthalmolegol. Bydd hyn yn sicrhau bod cleifion sydd angen mynediad at Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai yn gallu cael gwasanaethau o'r fath mewn modd priodol ac amserol o ganlyniad i'r gallu ychwanegol a gaiff ei ryddhau mewn gofal sylfaenol i roi sylw i'r rhan fwyaf o anghenion cleifion.

7.8 Mae cyhoeddiad diweddaraf *Iechyd Synhwyraidd (ystadegau gofal llygaid a chlyw) Ebrill 2019 i Fawrth 2021* yn cadarnhau bod y galw cynyddol am Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai yn parhau i fod yn her trwy Gymru,

trwy wledydd ehangach y DU a thrwy Ewrop.

7.9 Yn 2019-20, gwnaed mwy na 100,000 (104,233) o atgyfeiriadau offthalmolegol ar gyfer apwyntiadau cyntaf cleifion allanol. Cafwyd cwymp i oddeutu 60,000 (63,392) yn 2020-21, pan effeithiodd y pandemig Covid 19 ar wasanaethau gofal llygaid, ac adlewyrchir yr effaith yn y data ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21.

7.10 Yn 2019-20, mynychodd mwy na 310,000 (314,054) o bobl apwyntiadau cleifion allanol offthalmoleg yn ysbytai Cymru. Unwaith eto, cafwyd cwymp i lai na 190,000 (186,728) yn 2020-21 yn sgil y pandemig Covid 19.

7.11 Hyd yn oed yng nghyd-destun y pandemig, mae'r data'n datgelu gorddibyniaeth ar wasanaethau ysbytai, yn arbennig yng ngoleuni'r ffaith fod y sector gofal llygaid yng Nghymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, wedi esblygu'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf a bod ganddo'r sgiliau a'r cymwysterau i reoli ychwaneg o gleifion mewn gofal sylfaenol.

7.12 Nod y llwybrau newydd gogyfer gofal llygaid, y gellir eu rhoi ar waith yn sgil y newidiadau deddfwriaethol, yw lleihau'r nifer o atgyfeiriadau a wneir at Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai – sef traean o leihad – a chynyddu gallu Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbytai trwy ryddhau apwyntiadau dilynol. Bwriedir gwneud hyn trwy fynd i'r afael â gwaith monitro, rheoli a thrin mewn gofal sylfaenol. Yr ateb mwyaf cost-effeithiol a mwyaf priodol yn glinigol yw galluogi Gofal Sylfaenol Offthalmig i ddarparu cymorth clinigol i gleifion pan fo'n briodol, heb eu hatgyfeirio'n ddiangen at Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai, gan arwain at gynyddu'r gallu mewn ysbytai.

7.13 Yng Nghymru, mae datblygiad proffesiynol parhaus ein gweithlu optometreg mewn gofal sylfaenol yn sicrhau bod gweithlu â sgiliau priodol ar gael i ddarparu'r manteision arfaethedig a gyflwynir yn sgil y gwaith angenrheidiol o ddiwygio gwasanaethau, yn cynnwys archwilio iechyd llygaid. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae mwy a mwy o ymarferwyr wedi ennill cymwysterau ôl-raddedig ychwanegol mewn retina meddygol, glawcoma a rhagnodi annibynnol. Dyma gam sylweddol tuag at fodel clinigol newydd ar gyfer gofal iechyd llygaid yng Nghymru.

7.14 Bydd y cynnydd mewn gwasanaethau clinigol a ddarperir gan optometryddion, trwy weithio gydag adrannau llygaid mewn ysbytai, yn cynnig y canlyniadau gorau i unigolion, oherwydd bydd mwy o bryderon iechyd llygaid yn cael eu canfod ynghynt, 10 gan roi sicrwydd i GIG Cymru y bydd modd darparu gwasanaethau teg, cyson ac amserol i bob dinesydd trwy Gymru.

## 8. Casgliad

8.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Felly, er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer darpariaeth fodern, ystwyth, sy'n canolbwyntio ar gleifion gwasanaethau offthalmig yng Nghymru, y dewis a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yw opsiwn 3, sy'n golygu diwygio'r fframwaith cyfredol o fewn

pwerau presennol trwy ddisodli a diwygio'r is-ddeddfwriaeth bresennol.

## 9. Asesu'r Gystadleuaeth

9.1 Aethpwyd ati i Asesu'r Gystadleuaeth er mwyn pwyso a mesur yr effeithiau posibl y gellid eu gweld pe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei newid. Ni ddisgwylir y bydd y polisi hwn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth yn y diwydiant. Bydd diwygiadau optometreg yn rhoi tâl i weithwyr iechyd proffesiynol am eu sgiliau clinigol. Yn yr un modd, bydd y model clinigol newydd yn golygu y bydd modd i gleifion allu cael triniaeth amserol pan fônt ei hangen, gan fynd ati hefyd i gefnogi practisau optometreg yn ariannol er mwyn iddynt allu parhau i gynnig gwasanaethau ar y stryd fawr. Nid yw'r polisi yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o eiddo – mae'n berthnasol i bob un. Isod, ceir canlyniadau prawf hidlo (a oedd yn cynnwys naw o gwestiynau syml) sy'n ategu'r casgliad hwn, ac yna cyflwynir tystiolaeth i ategu'r atebion.

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiynau** | **Atebion** |
| C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Oes |
| C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Oes |
| C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a fydd y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd â 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Bydd |
| C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Na |
| C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid y nifer o gwmnïau neu faint y cwmnïau? | Na |
| C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sef costau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na |
| C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sef costau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na |
| C8: A gaiff y sector ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na |
| C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na |

## 10. Adolygiad ôl-weithredu

10.1 Byddwn yn monitro'r modd y rhoddir y gwasanaeth newydd ar waith, ynghyd â'r model ariannol, am 12 mis ar ôl i'r darpariaethau deddfwriaethol ddod i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn targedau a

bennir yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio ac yn cyhoeddi adroddiadau interim blynyddol, ynghyd ag adolygiad swyddogol yn asesu effaith y newidiadau deddfwriaethol ar ôl y pum mlynedd cyntaf.

**Atodiad A**

**2019/2020**

| **Math o daleb** | **Talebau a ad-dalwyd** | **Cyfran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Taleb math A | 208,033 | 0.733523032 |
| Taleb math B | 36,277 | 0.127912471 |
| Taleb math C | 1,522 | 0.005366562 |
| Taleb math D | 952 | 0.003356746 |
| Taleb math E | 30,734 | 0.108367888 |
| Taleb math F | 5,853 | 0.020637641 |
| Taleb math G | 138 | 0.000486587 |
| Taleb math H | 99 | 0.000349073 |
| **Cyfanswm y talebau a ad-dalwyd** | **283,608** | |

| **Math o Archwiliad EHEW** | **Nifer yr Archwiliadau** | |
|---|---|---|
| Band 1 | 119,890 | |
| Band 2 | 48,052 | |
| Band 3 | 33,266 | |
| **Cyfanswm** | **201,208** | |

Yn seiliedig ar 18 claf y dydd ar gyfartaledd yn cael eu gweld gan optometrydd, gyda chyfradd trosi o 65% (trosi prawf golwg yn bresgripsiwn newydd/diwygiedig a rhoi taleb optegol). Nid yw'r cyfrifiadau yn cynnwys gwasanaeth newydd.

**Cyfrifiadau cyfartalog:**

**(GOS yn unig)**

Hyd cyfartalog y profion golwg 25 munud

| | |
|---|---|
| Diwrnod gwaith cyfartalog | 7.5 awr |
| Nifer cyfartalog y profion golwg GOS yn unig a gynhelir mewn diwrnod | 18 |
| Nifer cyfartalog y profion golwg GOS wedi'u cyfuno â EHEW | 14.6 |

(Cyfrifwyd hyn gan ddefnyddio'r gymhareb o archwiliadau GOS i EHEW fel y gwelwyd yn 2019/20 sy'n dangos 0.8118 o brofion golwg GOS i 0.1882 o archwiliadau EHEW.)

| | |
|---|---|
| Cyfradd drosi gyfartalog o'r profion golwg | 65% |
| **(GOS ynghyd â EHEW)** | |
| Nifer cyfartalog y profion golwg | 14.6 |
| Nifer cyfartalog y profion golwg wedi'u trosi yn dalebau a ddosbarthwyd | 9.5 |
| Nifer cyfartalog yr Archwiliadau EHEW | 3.4 |

| **Gwerthoedd Cyfredol** | | **Gwerthoedd Newydd** | | |
|---|---|---|---|---|
| **GOS yn unig** | | **GOS yn unig** | | **Gwahaniaeth** |
| Nifer y profion golwg a gynhelir 18 @ £21.71 | £390.78 | Nifer y profion golwg a gynhelir 18 @ £43.00 | £774.00 | |
| Nifer cyfartalog y profion golwg wedi'u trosi yn dalebau a ddosbarthwyd | 11.7 | Nifer cyfartalog y profion golwg wedi'u trosi yn dalebau a ddosbarthwyd | 11.7 | |
| Gwerth cyfartalog y talebau | £545.23 | Gwerth cyfartalog y talebau | £347.10 | |
| **Cyfanswm Gwerth Dyddiol** | **£936.01** | **Cyfanswm Gwerth Dyddiol** | **£1,121.10** | +185.09/y dydd |
| | | | | |
| **GOS ynghyd â EHEW** | | **GOS ynghyd â EHEW** | | |
| Nifer y profion golwg a gynhelir 14.6 @ £21.71 | £316.97 | Nifer y profion golwg a gynhelir 14.6 @ £43.00 | £627.80 | |
| Gwerth cyfartalog y talebau | £442.71 | Gwerth cyfartalog y talebau | £281.84 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth cyfartalog EHEW | £175.41 | Gwerth cyfartalog EHEW | £199.46 | |
| **Cyfanswm Gwerth Dyddiol** | **£935.09** | **Cyfanswm Gwerth Dyddiol** | **£1109.10** | +£174.01/y dydd |

| **Math o daleb** | **Gwerth (cyfredol)** | **Cyfran** | **Cyfartaledd (11.7)** | **Gwerth** | **Cyfartaledd (9.5)** | **Gwerth** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A | 39.1 | 0.733523032 | 8.582219474 | 335.5647814 | 6.968468804 | 272.4671 |
| B | 59.3 | 0.127912471 | 1.496575911 | 88.7469515 | 1.215168475 | 72.05949 |
| C | 86.9 | 0.005366562 | 0.062788775 | 5.456344582 | 0.050982339 | 4.430365 |
| D | 196 | 0.003356746 | 0.039273928 | 7.697689927 | 0.031889087 | 6.250261 |
| E | 67.5 | 0.108367888 | 1.26790429 | 85.58353955 | 1.029494936 | 69.49091 |
| F | 85.6 | 0.020637641 | 0.2414604 | 20.66901021 | 0.19605759 | 16.78253 |
| G | 111.2 | 0.000486587 | 0.005693068 | 0.63306915 | 0.004622577 | 0.514031 |
| H | 215.5 | 0.000349073 | 0.004084154 | 0.880135209 | 0.003316194 | 0.71464 |
| **Cyfanswm** | | | | **545.2315216** | | **442.7094** |
| **Math o daleb** | **Gwerth (newydd)** | **Cyfran** | **Cyfartaledd (11.7)** | **Gwerth** | **Cyfartaledd (9.5)** | **Gwerth** |
| 1 | 22 | 0.733523032 | 8.582219474 | 188.8088284 | 6.968468804 | 153.3063 |
| 2 | 42 | 0.127912471 | 1.496575911 | 62.85618825 | 1.215168475 | 51.03708 |
| 3 | 155 | 0.005366562 | 0.062788775 | 9.732260187 | 0.050982339 | 7.902263 |
| 4 | 276 | 0.001678373 | 0.019636964 | 5.419802092 | 0.015944544 | 4.400694 |
| 5 | 377 | 0.001678373 | 0.019636964 | 7.403135466 | 0.015944544 | 6.011093 |
| 6 | 40 | 0.108367888 | 1.26790429 | 50.71617158 | 1.029494936 | 41.1798 |
| 7 | 77 | 0.020637641 | 0.2414604 | 18.59245078 | 0.19605759 | 15.09643 |
| 8 | 299 | 0.000486587 | 0.005693068 | 1.702227302 | 0.004622577 | 1.38215 |
| 9 | 387 | 0.000174537 | 0.002042077 | 0.790283818 | 0.001658097 | 0.641683 |
| 10 | 530 | 0.000174537 | 0.002042077 | 1.082300837 | 0.001658097 | 0.878791 |
| **Cyfanswm** | | | | **347.1036487** | | **281.8363** |

| EHEW | Gwerth (Cyfredol) | Cyfran | Cyfartaledd (3.4) | Gwerth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band 1 | 63.68 | 0.59585106 | 2.025893604 | 129.0089047 | | |
| Band 2 | 42.46 | 0.238817542 | 0.811979643 | 34.47665563 | | |
| Band 3 | 21.22 | 0.165331398 | 0.562126753 | 11.9283297 | | |
| **Cyfanswm** | | | | **175.41389** | | |
| **EHEW** | **Gwerth (Newydd)** | **Cyfran** | **Cyfartaledd (3.4)** | **Gwerth** | | |
| Band 1 | 70 | 0.59585106 | 2.025893604 | 141.8125523 | | |
| Band 2 | 53 | 0.238817542 | 0.811979643 | 43.03492107 | | |
| Band 3 | 26 | 0.165331398 | 0.562126753 | 14.61529558 | | |
| **Cyfanswm** | | | | **199.4627689** | | |